

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE), Yr Wyddgrug

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 19 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf.....	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	19
Atodiad C - Cynllun gwella.....	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE) ar 16 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE) yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'r cleifion mewn amgylchedd dymunol gyda staff cyfeillgar a phroffesiynol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Gwelsom y staff yn cyfarch cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Dylai'r clinig weithredu cofrestr triniaethau
- Dylai'r clinig gyflwyno system ffurfiol ar gyfer cael adborth gan gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd y staff yn gwrtais, yn ofalgar ac yn gwrandao ar y cleifion
- Roedd gwasanaeth dwyieithog yn cael ei gynnig.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE) yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân iawn ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael cyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol

- Gweithredwyr laser i adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân
- Datblygu amserlenni glanhau ar gyfer y safle
- Datblygu polisi rheoli risg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafelloedd trin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon uchel
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Roedd y cleifion yn fodlon ar eu triniaethau a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r clinig o ddydd i ddydd a gwelsom fod yr unigolyn hwnnw yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd a'u bod yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd defnyddwyr awdurdodedig y peiriant laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o 15 o ymatebion.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Ymhlith y sylwadau a gafwyd gan y cleifion roedd y canlynol:

"Gwasanaeth rhagorol."

"Proffesiynol iawn."

"Eithriadol."

"Byddwn yn ei argymhell yn fawr."

"Rhagorol ac effeithiol iawn"

"Proffesiynol iawn drwyddi draw."

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys y canlynol:

"Alla i ddim gweld sut y gallai wella."

"Apwyntiadau hwyrach gyda'r nos"

"Yn barod iawn i helpu, gofalgwr a phroffesiynol. Does dim angen gwella."

Diogelu a gwella iechyd

Er mwyn diogelu rhag y risg sy'n gysylltiedig â feirws COVID-19, gwelsom fod peiriannau hylif diheintio alcohol wedi cael eu gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r clinig.

Dyweddod pob un o'r cleifion wrthym, wrth fynd i'r clinig, ei bod yn amlwg iawn bod gweithdrefnau a oedd yn cydymffurfio â rheoliadau COVID-19 ar waith.

Gwelsom fod y staff yn gofyn i'r cleifion gwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol ar ddechrau pob triniaeth.

Urddas a pharch

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi'u trin ag urddas a pharch pan wnaethant ymweld â'r clinig.

Gwelsom fod modd cloi'r drysau i'r ystafelloedd trin, a chadarnhaodd y staff eu bod yn cloi'r drysau yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd. Roedd y cleifion yn cael tywelion papur i osod drostynt eu hunain i ddiogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn i'r cleifion ddadwisgo os oedd angen.

Roedd yr ymgynghoriadau â'r cleifion yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb unrhyw gwestiynau. Roedd sylwadau'r cleifion am y staff yn cynnwys:

“Staff proffesiynol iawn.”

“Lleoliad ardderchog a staff hyfryd.”

Roedd ardal ar gael i'r staff gael sgysiau preifat â chleifion, pe byddai angen, er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dyweddod pob claf a gwblhaodd holiadur wrthym ei fod yn gwybod sut i wneud cwyn pe byddai'n anfodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gan y clinig.

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw. Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Mae gan y clinig wefan a thafleuni gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth am y triniaethau sydd ar gael.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pump claf a gwelsom dystiolaeth fod prisiau triniaethau yn glir ac yn dryloyw.

Mae un o'r gweithredwyr laser yn siarad Cymraeg, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno fod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, gwahanol opsiynau triniaeth, cost a gwasanaethau ôl-ofal. Dywedodd un claf wrthym:

“Rhagorol, mae'n rhoi tawelwch meddwl mai nyrsys sy'n darparu'r triniaethau.”

Roedd y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig. Roedd taflenni gwybodaeth manwl ar gael i'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Roedd y staff hefyd yn gofyn i'r cleifion ddarparu cydsyniad ysgrifenedig ar ddechrau pob cwrs o driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, gyda thystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da. Roedd dogfennaeth dda ar waith yn ymdrin â math o groen, cydsynio i driniaeth a hanes meddygol.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol. Fodd bynnag, nid oedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu cofrestr triniaethau a chynnal y gofrestr honno.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn cwblhau ffurflen hanes meddygol a/neu fod ei ffurflen hanes meddygol wedi cael ei gwirio cyn cynnal unrhyw driniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd mynediad da i'r adeilad. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion â phroblemau symudedd ddefnyddio'r ddwy ystafell ymgynghori, y dderbynfa, yr ardal aros, y toiledau a'r ystafelloedd ymolchi.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Trafodwyd y dull o gasglu adborth gan gleifion. Dywedwyd wrthym fod y cleifion yn gallu rhoi adborth ar y gwasanaethau a ddarperir ar lafar ar ddiwedd pob triniaeth a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, nid oedd system ffurfiol ar waith ac ni allai'r cleifion roi adborth yn ddiennw.

Gwnaethom gynnig y gallai'r gwasanaeth ystyried datblygu holiaduron i'r cleifion roi adborth yn ddiennw, a chytunodd y rheolwr cofrestredig i ystyried y cynnig hwnnw.

Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno system ffurfiol ar gyfer casglu adborth diennw gan gleifion.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cleifion eu hysbysu am ganlyniadau unrhyw adborth drwy gynnwys crynodeb o'r wybodaeth honno yn y canllaw i gleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gwelsom hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer diogelwch tân a gwelsom fod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu a bod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd asesiadau risg tân ar waith, a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal bob wythnos ac roedd ymarferion tân yn cael eu cynnal bob chwe mis.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y staff wedi cynnal hyfforddiant diogelwch tân mewnol. Fodd bynnag, nodwyd fod angen adnewyddu'r hyfforddiant tân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y ddau weithredwr laser yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael, ac roedd un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus iawn yr olwg.

Gwnaethom drafod y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau â'r rheolwr cofrestredig, gan gynnwys tasgau dyddiol ac wythnosol a'r trefniadau glanhau rhwng y cleifion. Roeddem o'r farn bod y trefniadau sydd ar waith yn briodol i amddiffyn y cleifion rhag achosion o groes-heintio. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cadw amserlenni glanhau manwl a chytunodd y rheolwr cofrestredig i wneud hynny.

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael eu datblygu a'u cynnal.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig. Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod yr amgylchedd yn lân iawn. Gwnaeth un claf y sylw canlynol:

“Does dim angen unrhyw welliannau, mae'r clinig yn lân ac yn fodern.”

Roedd gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol ac roedd contract ar waith gyda chlodwr gwastraff cymeradwy.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Roedd polisi ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm atgyfeirio diogelu lleol. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu oedolion.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd gan y peiriant laser dystysgrif gwasanaeth a graddnodi flynyddol a oedd yn gyfredol. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos pan oedd y peiriant laser yn cael ei ddefnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drws yr ystafell drin yn cael ei gloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Dywedwyd wrthym fod y peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond ag allwedd y gellir ei actifadu, sy'n atal unrhyw achosion o weithredu heb awdurdod.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau. Fodd bynnag, nid oedd polisi rheoli risg ar waith.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg yn cael ei ddatblygu.

Rheoli cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion.

Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, cydsyniad, y rhannau o'r corff a

gafodd eu trin, paramedrau perthnasol a manylion unrhyw effeithiau andwyol. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd nifer y dosau yn cael ei gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nifer y dosau yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol sy'n berchen ar Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE) ac yn ei redeg.

Gwnaethom edrych ar sampl o bolisiau a gweithdrefnau a gwelsom eu bod wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys dyddiadau fersiynau a / neu ddyddiadau adolygu.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Mae gan y practis system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Dywedwyd wrthym fod unrhyw bryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion unigol. Gwnaethom awgrymu y dylai'r clinig gofnodi unrhyw bryderon anffurfiol mewn cofnodlyfr canolog er mwyn gallu nodi unrhyw themâu, a chytunodd y rheolwr cofrestredig y byddai'n gwneud hynny.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom dystysgrifau yn dangos bod pob unigolyn ag awdurdod i ddefnyddio'r peiriannau laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant gan y gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio'r peiriant laser.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Nododd y rheolwr cofrestredig fod y tîm o staff cyfredol wedi hen ymsefydlu a disgrifiodd y prosesau recriwtio. Caiff swyddi gwag eu hysbysebu, a chaiff darpar staff eu cyfweld a gofynnir am eiradaon ar eu cyfer. Disgwylir i staff newydd sy'n cael eu penodi gwblhau cyfnod sefydlu.

Ni fyddai unigolion ag awdurdod i weithredu peiriant laser yn gwneud hynny heb hyfforddiant priodol a heb gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
<p>Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y clinig wedi trin claf 16 oed.</p> <p>Dim ond cleifion dros 18 oed y mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i'w trin.</p> <p>Nid oedd y rheolwr cofrestredig yn ymwybodol o'r amod hwn.</p>	<p>Darparwyd y gwasanaeth yn groes i amodau'r cofrestriad. O ganlyniad, nid oes sicrwydd bod y gwasanaeth a ddarperir i gleifion dan 18 oed yn ddiogel ac yn briodol. Gallai hyn arwain at niwed i gleifion.</p>	<p>Uwchgyfeiriwyd y mater at y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol.</p>	<p>Cawsom sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig a'r unigolyn cyfrifol mai dim ond cleifion dros 18 oed a gaiff eu trin yn y clinig.</p> <p>Cysylltodd y rheolwr cofrestredig ar unwaith â Thîm Rheoleiddio AGIC i drefnu i gais newydd gael ei gyflwyno i amrywio ei amodau.</p>

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE)

Dyddiad yr arolygiad: 16 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Facial Aesthetics and Cosmetic Enhancements (FACE)**

Dyddiad yr arolygiad: **16 Chwefror 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig weithredu cofrestr triniaethau a chynnal y gofrestr honno.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 45(2)	Wedi'i gwblhau a'i weithredu ar ddiwrnod yr arolygiad	Jo Roberts	Wedi'i gwblhau
Dylai'r rheolwr cofrestredig gyflwyno system ffurfiol ar gyfer casglu adborth dienw gan gleifion. Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff y cleifion eu hysbysu am ganlyniadau unrhyw adborth drwy gynnwys crynodeb	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 19(2)(e) ac Adran 7(1)(e)	Yn ogystal ag annog adolygiadau ar y cyfryngau cymdeithasol / Google, rydym bellach yn defnyddio ffurflen adborth bapur sydd ar gael yn y dderbynfa. Byddwn yn gofyn yn ffurfiol am adborth bob chwarter (gan ddsbarthu'r ffurflenni, nid dim	Jo Roberts	Wedi'i gwblhau

o'r wybodaeth honno yn y canllaw i gleifion.		ond eu gadael i'r cleifion eu gweld). Byddwn yn diweddarau'r wybodaeth hon ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol / gwefan yn rheolaidd ac yn ei chynnwys yn ein canllaw i gleifion.		
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y ddau weithredwr laser yn adnewyddu eu hyfforddiant diogelwch tân.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 26 (4) (c)	Wedi'i gwblhau - mae hyfforddiant y ddau weithredwr yn gyfredol.	Jo Roberts	Wedi'i gwblhau
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael eu datblygu a'u cynnal.	Safon 13, Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Dyddiol - wythnosol - misol Mae amserlenni ar waith. Rhoddir gwybodaeth yn rhoiledau'r cleifion ac yn yr ystafelloedd trin sy'n nodi'r amserlen lanhau.	Jo Roberts	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod polisi rheoli risg yn cael ei ddatblygu.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Adran 9 (e)	Mae'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Rwy'n rhagweld y bydd polisi rheoli risg ar waith o fewn y pedair wythnos nesaf	Jo Roberts	I'w gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod nifer y dosau yn cael ei gofnodi yn nodiadau'r cleifion.	Safon 9, Gwybodaeth i Gleifion a	Wedi'i roi ar waith.	Jo Roberts	Wedi'i gwblhau

	Chydsyniad Cleifion			
--	------------------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jo Roberts

Swydd: Ymarferydd Nyrsio Estheteg / Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 19/04/2023